**Rhif: WG36343**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
## Dogfen Ymgynghori

# Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cathod

Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2018
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 8 Mawrth 2019

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i asiantaethau gorfodi, grwpiau diddordeb arbennig a'r cyhoedd ystyried cynigion i ddiweddaru'r Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cathod yng Nghymru. Nod y codau yw darparu gwybodaeth ac arweiniad i'r rheini sy'n gyfrifol am gathod a sut i ofalu amdanynt.<br>Roedd y cod ar gyfer cathod sy'n bodoli eisoes yn adlewyrchu'r wyddoniaeth a'r ddeddfwriaeth bryd hynny ac fe'i gwnaed o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae angen adolygiad bellach i gasglu unrhyw newidiadau yn y meysydd hyn, ac i sicrhau bod y safonau a gynghorir yn dal i fod yn briodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru, a fu'n cynorthwyo gyda pharatoi'r cod hwn. |
| **Sut i ymateb** | Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar arddull, gosodiad a chynnwys y cod a'r wybodaeth, cyngor ac arweiniad a geir ynddo. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn derbyn sylwadau gennych ynghylch yr adran ar adnabod a’r cyngor ynghylch microsglodynnu. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth a thystiolaeth â phosibl er mwyn cefnogi eich barn. Bydd hyn yn ein helpu i wella cywirdeb ac ansawdd y cod. Mae croeso i sylwadau ar unrhyw ran o'r cod.<br><br>Yn dilyn yr ymgonghoriad, byddwn yn creu fersiwn wedi ei crynhoi.<br><br>Anfonwch eich sylwadau erbyn 8 Mawrth 2019 at:<br><br>Companionanimalwelfare@gov.wales<br><br>Cangen Sgil-gynhyrchion a Lles Anifeiliaid,<br>Llywodraeth Cymru,<br>Parc Cathays,<br>Caerdydd,<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiynau print mawr, Braille ac ieithoedd eraill o’r ddogfen hon ar gael ar gais.** |

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt** | Os hoffech ragor o wybodaeth:<br><br>Cangen Sgil-gynhyrchion a Lles Anifeiliaid,<br>Llywodraeth Cymru,<br>Parc Cathays,<br>Caerdydd,<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost: Companionanimalwelfare@gov.wales<br><br>Ffôn: 03000 255007 |
| **Diogelu data** | Sut byddwn yn defnyddio'r safbwyntiau a'r wybodaeth a roddwch inni.<br><br>Bydd unrhyw ymateb yr anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan aelodau staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a |

chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.